01 Hydref 2009

Yn ei araith i Gynhadledd y Blaid Lafur ar 29 Medi, cyhoeddodd Gordon Brown bod y llywodraeth yn bwriadu diwygio gostyngiadau treth erbyn diwedd y Senedd nesaf er mwyn rhoi gofal plant am ddim am y tro cyntaf i rieni chwarter miliwn o blant dyflwydd.

Mae'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud hyn drwy ddod â'r hawl i gael eithriad treth incwm a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 i ben i bobl a fydd yn cael talebau gofal plant cymwys am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2011. Bydd y rhai hynny sy'n cael y talebau ar hyn o bryd yn parhau i elwa o'r eithriad, ond dim ond tan 5 Ebrill 2015 pan fydd yn cael ei dynnu'n ôl yn llwyr.

Yr eithriad

Ar hyn o bryd, gall cyflogwyr roi hyd at £55 yr wythnos i weithwyr mewn talebau gofal plant cymwys heb fod rhaid talu treth incwm neu Gyfraniadau Yswiriant Gwladol Dosbarth 1 arnynt. Yn aml, mae gweithwyr yn manteisio ar gynlluniau i dynnu rhywfaint o'u cyflogau i gael talebau gofal plant yn lle'r swm hwnnw.

Un broblem a nodwyd yn ddiweddar â chynlluniau o'r fath yw bod hawl gan ferched sydd ar absenoldeb mamolaeth statudol i barhau i gael eu talebau gofal plant er nad oes modd aberthu dim o'u tâl mamolaeth statudol i dalu amdanynt. Bydd dod â'r eithriad i ben yn golygu na fydd cynlluniau o'r fath yn apelio o gwbl i weithwyr yn y tymor hir.